

yr Athro



Dyna ymateb UCAC i gynnig Cyngor Abertawe i gyflwyno ffioedd parcio mewn ysgolion.

Trwy sibrydion lleol y daeth y cynnig yn hysbys, a darganfuwyd mai gwir oedd y gair.

Bwriad Cyngor Abertawe, o 1 Ebrill ymlaen, fyddai gadael i ysgolion 'benderfynu' p'un ai cyflwyno'r ffioedd ai peidio, a'r rheiny'n cynyddu yn dibynnu ar gyflog yr aelod staff. Fe fyddai'r arian yn mynd tuag at gyllideb yr ysgol.

Neidiodd Ysgrifennydd Sir UCAC yn Abertawe, Chris Shaw, i'r adwy a gwneud cyfweiliadau ar gyfer S4C, Radio Cymru a Radio 5 Live. Rhoddwyd sylw i'r stori yn nhudalennau'r Daily Telegraph, Daily Mail, Daily Mirror, yn ogystal â rhaglen Jason Mohammad ar Radio Wales, ac ar Heart FM a Capital Radio.

Dywedodd Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC:

"Mae UCAC yn brawychu at y cynnig hwn gan Gyngor Abertawe ac yn gwrthwynebu'n chwym. Mae'n awgrymu 'desperation' llwyr ar ran y Cyngor.

"Mi fyddai cyflwyno ffioedd parcio ar weithlu sector cyhoeddus sydd wedi gweld rhewi neu gapio'u cyflogau ers saith mlynedd bellach, yn gwbl annerbyniol.

"Ar lefel ymarferol, mae athrawon yn cario llwythi trwm iawn o lyfrau bob dydd sy'n gwneud teithio ar gludiant cyhoeddus yn eithriadol o anodd.

"Rydym yn poeni hefyd y gallai hyn ychwanegu at lwyth gwaith penaethiaid os

oes disgwyl iddyn nhw gasglu taliadau a dosbarthu trwyddedau.

"Galwn ar Gyngor Abertawe i dynnu'r cynigion afresymol hyn yn ôl ar unwaith er mwyn tawelu'r dyfroedd ac osgoi colli ewyllys da y gweithlu cyfan."

Gwyddom fod Cyngorau eraill yn cadw llygad barcud ar y sefyllfa yn Abertawe, felly mae'n hollbwysig ein bod yn trechu'r cynnig gwarthus hwn cyn gynted â phosib.

Bydd protest cyd-undebol tu allan i'r Guildhall, Abertawe am 4 o'r gloch, ar 1 Mawrth. gyda'r Cyngor yn cwrdd i drafod y mater am 5.

Rydym yn annog pob aelod posib i ymuno â'r brotest. Bydd Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin yno â chyflenwad o faneri UCAC i'w rhannu. Mae croeso i chi gysylltu gydag e: gareth@ucac.cymru



Elisabeth Roberts: un o sylfaenwyr UCAC

Roedd rhifyn gaeaf Y Faner Newydd yn cynnwys erthygl hynod ddiddorol am Elisabeth Williams (née Roberts).

Ganed hi ym Mlaenau Ffestiniog ym 1891. Astudiodd y Gymraeg yng Ngholeg Aberystwyth ac aeth ymlaen i fod yn athrawes Cymraeg yn ardaloedd Pontypridd a Glyn Ebwy.

Bu'n rhaid iddi roi'r gorau i'w galwedigaeth, yn unol â'r drefn ar y pryd, pan briododd Griffith John Williams ym 1922. Ond nid dyma fu diwedd ei gwaith a'i gweithgaredd.

Bu'r ddau'n allweddol wrth sefydlu Plaid Genedlaethol Cymru yn 1925, a buodd Elisabeth yn ddylanwadol iawn o ran hybu addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Caerdydd, gan gynnwys Ysgol Bryn Taf.

Mae'r erthygl yn Y Faner Newydd yn sôn am Gwyn Daniel, oedd yn brifathro ar y pryd ar Ysgol Gwaelod-y-garth, yn galw'n aml yng nghartref Elisabeth a Griffith John gerllaw'r ysgol. Trodd y sgwrs at sefydlu undeb athrawon i Gymru - sef UCAC, yr undeb y bu Gwyn Daniel yn Ysgrifennydd cyntaf arno.

Yn y daflen gyntaf erioed gan UCAC, yn Rhagfyr 1939 - Ionawr 1940, cyhoeddir mai 'dau amcan yr Undeb newydd fydd sicrhau cyfundrefn well o addysg i Gymru, a diogelu buddiannau'r athro unigol'.

Roedd cariad Elisabeth at addysg ac at y Gymraeg yn angerddol ac ym 1968 rhoddodd swm sylweddol i'r Undeb er mwyn sefydlu Ysgoloriaeth Bryn Taf i roi 'cymorth ymarferol', fel y dywed awdur yr erthygl Emrys Roberts, 'i Gymry Cymraeg ifainc oedd dan anfantais gorfforol neu feddylol'.

Mae'r erthygl yn deyrnged gwerth chweil i Elisabeth a'i gŵr oedd â rhan mor allweddol wrth sicrhau sylfeini cadarn i'r Undeb. Mae'n werth i chi brynu copi o'r Faner Newydd (rhifyn 82) i ddarllen yr erthygl gyfan.



Cynhadledd Flynyddol: 20-21 Ebrill

Nant Gwrtheyrn fydd y lleoliad bendigedig ar gyfer ein Cynhadledd eleni – felly dewch yn llw i fwynhau'r trafodaethau, y cwmni, yr adloniant a'r golygfeydd godidog.

Y brif thema eleni fydd Cydraddoldeb, gan gynnwys Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Bydd sesiynau ymylol ynghylch Prosiect Sbectwrwm (Hafan Cymru) am berthnasau iach, ac am y Pasbort Dysgu Proffesiynol, gyda sesiynau a siaradwyr eraill i'w cadarnhau.

Cysylltwch am ragor o fanylion: ucac@ucac.cymru
01970 639950.



Bwrdd Golygyddol

Llywydd Cenedlaethol: Phil Higginson
Is-Lywydd: Roger Vaughan
Ysgrifennydd Cyffredinol: Elaine Edwards
Cydylynydd Yr Athro: Rebecca Williams

Nid yw cynnwys Yr Athro o angenrheidiwydd yn farn swyddogol UCAC.

Os hoffech gyfrannu at y cylchgrawn hwn, mae croeso i chi anfon unrhyw syniadau neu erthyglau at: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU Ffôn: 01970 639950, ucac@ucac.cymru, www.ucac.cymru

Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau, syniadau neu sylwadau am Yr Athro.

Newid ar y top

Ar ôl deng mlynedd wrth y llyw, bydd Elaine Edwards yn sefyll lawr fel Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC ar ddiwedd mis Awst eleni.

Mae Elaine wedi dod yn llais ac wyneb cyfarwydd, nid yn unig i aelodau UCAC dros Gymru gyfan, ond i'r genedl yn sgil cyfweiliadau cyson ar y teledu a'r radio ar bob math o bynciau sy'n ymwneud â byd addysg Cymru.

Ac mae ei dylanwad ar ran yr Undeb a'i aelodau, gyda Llywodraethau Cymru a San Steffan, llywodraeth leol ac eraill - wedi bod yn hynod o rymus. Mawr iawn fydd y golled ar ei hôl.

Swydd etholedig yw swydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol, ac fe fu cyfle am enwebiadau dros y misoedd diwethaf.

Yr enwebiad a ddaeth i law, ac a dderbyniodd gymeradwyaeth y Cyngor Cenedlaethol, oedd Dilwyn Roberts-Young, sef Is-ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb ar hyn o bryd, a Swyddog Maes y Gogledd. Llonyfarchiadau mawr i Dilwyn, a fydd yn cychwyn ar y gwaith ar 1 Medi.

Cewch ragor o wybodaeth - am Elaine ac am Dilwyn - yn rhifyn nesaf Yr Athro.



Elaine Edwards



Dilwyn Roberts-Young

Darganfod Dŵr

Cwmni nid er elw yw Dŵr Cymru sy'n golygu bod pob ceiniog yn cael ei ail-fuddsoddi er budd y cwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd o'n cwmpas.

Dyna pam mae Dŵr Cymru'n cydweithio ag ysgolion i annog plant i garu a gwerthfawrogi dŵr.

Mae gan Dŵr Cymru bedair Canolfan Ddarganfod yng Nghymru: Cog Moors, Cilfynydd, Dyffryn Elan ac un sydd wedi sefydlu cartref newydd yng nghanol golygfeydd godidog Llyn Brenig.

Estynnir gwahoddiad i blant o flwyddyn 2 i 6, i ymweld ac i lenwi'r safleoedd gyda bwrllwm a chyffro.

Arweinir amrywiaeth o weithgareddau ysgogol, ac ymestynnol i ddysgwyr a hynny i gyd AM DDIM gan athrawon cymwysedig. Hyrwyddir datblygiad sgiliau ym mhob un o'r gwersi ac yn ogystal rhoddir pwyslais ar ddatblygu profiadau cinesthetig y disgyblion.

Yn ogystal, mae Dŵr Cymru'n ymweld ag ysgolion. Cynhelir gweithdai ymarferol gyda'r disgyblion i rannu prif negeseuon a themâu, megis Effeithlonrwydd Dŵr.

Canolbwyntir ar ysgolion Sir Ddinbych ac Abertawe eleni a chydweithir gyda chwmni Agualogic, sy'n gwneud archwiliad o ddefnydd dŵr o fewn yr ysgol.

- Ydi'r toiled yn defnyddio gormod o ddŵr pan yn eu fflysio?
- Ydi'r dŵr yn llifo'n rhy sydyn o'r tapiau?



Rhoddir amser i ddatrys y problemau yn y fan a'r lle neu wrth ailymweld. Caiff adroddiad manwl ei basio ymlaen i'r ysgol, sy'n wych ar gyfer ennill y faner werdd Eco-Ysgolion.

Mewn rhai ardaloedd, ble mae gwaith cynnal a chadw sylweddol yn digwydd gan y cwmni, bydd Dŵr Cymru'n ymweld ag ysgolion cyfagos i ddatblygu dealltwriaeth o waith y cwmni. Ceir cyfle i drafod ac i esbonio'r neges drwy weithdy Sialens Cyflenwad Dŵr – sy'n ymarferol ac yn datblygu sgiliau cydweithio a rhifedd.

Os am fwy o wybodaeth neu am drefnu ymweliad i un o'r Canolfannau Darganfod, cysylltwch drwy:

E-bost: education@dwrcymru.com

Rhif ffôn: 01443 492720

Trydar: @DiscoverDwr

Meddwl...

Ydych chi'n ymwybodol o meddwl.org? Gwefan Gymraeg yw hi sy'n ymdrin â materion iechyd meddwl.

Wrth i'r pwysau a'r straen sydd ar athrawon a disgyblion fel ei gilydd gynyddu, mae'n debygol iawn y caiff aelodau UCAC fudd o'r adnoddau sydd ar y wefan.

Mae'r wefan yn rhoi cyfle i ddysgu am anhwylderau gwahanol, darllen am brofiadau eraill, a chael gwybodaeth am ble i gael cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ceir adran ar ymdopi â straen a salwch meddwl yn y gweithle yn ogystal ag adran benodol ar gyfer pobl ifanc.

“Mae pob croeso i chi gysylltu â ni i rannu profiadau neu gyngor ag eraill, neu os oes gennych awgrymiadau am gynnwys y dylid ei ychwanegu at y wefan” meddai Manon Elin sy'n gweithio'n wirfoddol i'r mudiad.

Bydd cynrychiolydd o Meddwl.org yn dod i siarad ag Adran Gydraddoldeb UCAC yn nes ymlaen yn y flwyddyn a bydd

meddwl.org

meddyliau ar iechyd meddwl

Gall byw gyda salwch meddwl fod yn brofiad unig a heriol. Mae gwefan meddwl.org yn lle i ddysgu am anhwylderau gwahanol, darllen am brofiadau eraill, a chael gwybodaeth am ble i gael cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg.

cymorth gwybodaeth cyflyrau myfyrdodau darllen newyddion trafod

gan meddwl.org stondin yng Nghynhadledd Flynyddol UCAC ym mis Ebrill.

Gwefan: meddwl.org

Twitter: @gwefanmeddwl

Facebook: Meddwl

Ebost: gwefanmeddwl@gmail.com

Adnoddau • Adnoddau • Adnoddau

Mae gwefan Adnoddau Addysgol CBAC yn cynnwys amrywiaeth eang o adnoddau i gefnogi cymwysterau newydd.

Ewch at <http://adnoddau.cbac.co.uk> i gael mynediad diderfyn, rhad ac am ddim at yr adnoddau sydd yno.

Dyma rai enghreifftiau o'r lluo o adnoddau newydd sydd ar y wefan:



CA4: Sbaeneg/Almaeneg/Ffrangeg - Heriau Darllen

Gweithgareddau rhyngweithiol ar gyfer Gwranddo, Darllen ac Ysgrifennu y mae modd eu defnyddio i gefnogi addysgu a dysgu mewn dosbarth cyfan neu ar gyfer unigolyn. Mae'r adnodd yma'n darparu ar gyfer y tair thema yn y fanyleb newydd.



CA5: Addysg Grefyddol - Islam

Dyma gyfres o nodiadau ac adnoddau rhyngweithiol sy'n hyrwyddo sgiliau AA1 ac AA2 ar gyfer Islam ym manyleb Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch.



CA4: Daearyddiaeth – Llifogydd yn Nyffryn Conwy

Mae'r adnoddau hyn yn cefnogi addysgu Daearyddiaeth TGAU CBAC (asesu cyntaf yn 2018). Maent yn cefnogi addysgu sawl Syniad Allweddol yn Thema Graidd 1, ond yn bennaf Syniad Allweddol 1.3: Dalgylchoedd afonydd yng Nghymru a'r DU.



CA5: Mathemateg – Archwilio Setiau Data Mawr

Pwrpas yr adnodd hwn yw cefnogi addysgu setiau data mawr sy'n rhan o fanyleb TAG Mathemateg newydd CBAC. Gellir defnyddio'r adnodd i archwilio a dadansoddi setiau data mawr gan hefyd enghreifftio rhai elfennau damcaniaethol y meysydd ystadegol. Mae modd i athrawon ei ddefnyddio mewn ystafell TGCh gyda'r dysgwyr.



CA4/CA5: Busnes – Economi Cymru – Cipolwg 2017

Adnodd cryno sy'n adnabod prif nodweddion economi Cymru. Mae'r uned yn addas ar gyfer Astudiaethau Busnes TGAU a TAG gan dynnu sylw at y nodweddion economaidd pwysig y mae angen i ddsygywyr fod yn ymwybodol ohonynt. Mae'r adnodd yn cynnwys testun, rhifau a graffiau i gefnogi dysgu cyfres o sgiliau meintiol.




Ar y gweill ar hyn o bryd: Electroneg, Addysg Grefyddol, Bwyd a Maeth, Drama.



www.aber.ac.uk/caa

CAA, Prifysgol Aberystwyth,
Plas Gogerddan, Aberystwyth SY23 3EB



Gwerslyfr i gyd-fynd ag Uned 3A (Astudiaethau Thematig) y fanyleb TGAU Hanes newydd. Cyfrol hanfodol ar gyfer pob myfyrwr TGAU Hanes sy'n astudio'r uned hon.

£8.00



Golygiad Cymraeg newydd o ail gainc y Mabinogi. Ceir rhagymadrodd cynhwysfawr sydd yn gosod y gainc yn ei chyd-destun ac sy'n olrhain gwreiddiau'r cymeriadau, yn ogystal â nodiadau manwl a geirfa lawn. Adnodd gwerthfawr i fyfyrwyr sy'n astudio Cymraeg Safon Uwch.

£10.00



Llyfrau darllen hwyliog (ffuglen a ffeithiol) ar gyfer dysgwyr CA2. Addas i'w defnyddio yn annibynnol neu mewn grwpiau.

£2.50 yr un



facebook.com/CAACymru



@caacymru



01970 622128



caa-archeb@aber.ac.uk